OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 40 (Tai-bach) i Gyffordd 39 (Y Groes), Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Awst 2024* |
| *Yn dod i rym* | *2 Medi 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y draffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 40 (Tai-bach) i Gyffordd 39 (Y Groes), Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Medi 2024.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2024 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The M4 Motorway (Junction 40 (Tai-bach) to Junction 39 (Groes), Neath Port Talbot) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2024

| | |
|---|---|
| *Made* | *28 August 2024* |
| *Coming into force* | *2 September 2024* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the M4 motorway, are satisfied that traffic on a specified length of the motorway should be prohibited because of works proposed on or near the motorway.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the M4 Motorway (Junction 40 (Tai-bach) to Junction 39 (Groes), Neath Port Talbot) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2024 and this Order comes into force on 2 September 2024.

### Interpretation

**2.** In this Order—

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 2 Medi 2024 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y draffordd” (“*the motorway*”) yw traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darn o’r llain galed sy’n gyfagos i gerbytffordd tua’r dwyrain y draffordd a lôn gyntaf cerbytffordd tua’r dwyrain y draffordd sy’n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 40 (Tai-bach) hyd at yr arwydd gantri i’r gorllewin o Gyffordd 39 (Y Groes), Castell-nedd Port Talbot.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod para’r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Awst 2024

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“the motorway” (“*y draffordd*”) means the M4 London to South Wales motorway;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 20:00 hours on 2 September 2024 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

**Prohibition**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle on the length of the hard shoulder adjacent to the eastbound carriageway of the motorway and lane 1 of the eastbound carriageway of the motorway that extends from the nosing of the eastbound entry slip road at Junction 40 (Tai-bach) to the gantry sign to the west of Junction 39 (Groes), Neath Port Talbot.

**Application**

**4.** The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**5.** The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for the Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 28 August 2024

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government